# ADRAN 48 O DDEDDF CYNLLUNIO 2008, RHEOLIAD 4 O REOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (CEISIADAU: GWEITHDREFN A FFURFIAU RHAGNODEDIG) 2009
# RHEOLIAD 13 Y RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (ASESU'R EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD) 2017
# HYSBYSIAD YN CYHOEDDI CAIS ARFAETHEDIG AM ORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU AR GYFER PROSIECT STORFA YNNI A FFERM SOLAR MAEN HIR

lightsource bp

Hysbysir drwy hyn fod Lightsource SPV 204 Limited (rhif cwmni 08943830) o 7fed Llawr 33 Holborn, Llundain, Y Deyrnas Unedig, EC1N 2HU ("yr Ymgeisydd") yn bwriadu gwneud cais ("y Cais") i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelu Ffynonellau Ynni a Sero Net o dan Adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) am orchymyn cydsyniad datblygu ("DCO") mewn perthynas â Phrosiect Maen Hir ("y Prosiect").

Mae'r Prosiect yn cynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a digomisiynu gorsaf cynhyrchu trydan solar sydd â chapasiti o dros 350 MW (megawat) o gerrynt eiledol (AC), datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys system fatris i storio ynni, prosiect solar cymunedol, is-orsaf y prosiect a seilwaith ategol. Bydd y Prosiect yn cysylltu ag Is-orsaf newydd National Grid Electricity Transmission, y rhagwelir y bydd National Grid Electricity Transmission plc yn cael caniatâd ar wahân ar ei chyfer.

Mae'r Prosiect yn cynnwys tri pharsel cysylltiedig, sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ger Rhosgoch a Bodewryd (a elwir yn "Gogledd Maen Hir"), o amgylch ymylon gogleddol a dwyreiniol Llyn Alaw (a elwir yn "Maen Hir Canol") ac i'r gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain o Lannerch-y-medd (a elwir yn "Maen Hir De A a B"), gyda choridor cysylltu'r grid yn cysylltu'r parseli hyn yng ngogledd Ynys Môn, o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Ynys Môn.

Gan fod gan y Prosiect gapasiti cynhyrchu disgwyliedig sy'n fwy na 350MW, mae'n cael ei gyfrif yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Bydd y gorchymyn cydsyniad datblygu arfaethedig, ymysg pethau eraill, yn awdurdodi'r canlynol:

- adeiladu, gweithredu a digomisiynu cyfleuster cynhyrchu trydan solar ffotofoltäig ar y ddaear;
- datblygiadau cysylltiedig a gwaith ategol gan gynnwys adeiladu system fatris i storio ynni; is-orsafoedd, ceblau i gysylltu ag Is-orsaf y Prosiect, ceblau i gysylltu ag Is-orsaf newydd y National Grid; Prosiect Solar Cymunedol; creu ardaloedd lliniaru a gwella amgylcheddol; llwybrau caniataol; llwybrau mynediad; llociau adeiladu;
- newidiadau i strydoedd, gan gynnwys creu ac addasu mynedfeydd dros dro a pharhaol, symud dodrefn stryd dros dro, gwella hawliau tramwy cyhoeddus ac unrhyw waith angenrheidiol i ddargyfeirio a/neu gau hawliau tramwy cyhoeddus dros dro;
- caffael tir a/neu hawliau yn barhaol drwy orfodaeth a meddiannu tir a/neu hawliau dros dro;
- diystyru hawddfreintiau a hawliau eraill dros dir neu sy'n effeithio ar dir yn ogystal â chreu cyfyngiadau lle bo angen;
- cymhwyso a/neu ddatgymhwyso deddfwriaeth gan gynnwys, ymysg pethau eraill, ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phrynu gorfodol a materion landlordiaid a thenantiaid; a'r
- cyfryw ddarpariaethau, trwyddedau, hawliau eiddo a chydsyniadau ategol, cysylltiedig a chanlyniadol, sy'n angenrheidiol a/neu'n gyfleus at ddibenion y Prosiect.

Mae'r prosiect yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Ymgeisydd gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a chyflwyno Datganiad Amgylcheddol fel rhan o'r Cais.

Bydd y Datganiad Amgylcheddol yn rhoi disgrifiad manwl o'r Prosiect a gwybodaeth am ei effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol rhagarweiniol y Prosiect wedi'i nodi yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) ac mae wedi'i chrynhoi mewn crynodeb annhechnegol sy'n rhan o ddeunydd yr ymgynghoriad.

## Manylion yr ymgynghoriad

Cynhelir yr ymgynghoriad ar y Prosiect rhwng 02 Hydref 2024 a 23:59 ar 15 Tachwedd 2024 ("y Cyfnod Ymgynghori").

Mae deunyddiau'r ymgynghoriad yn cynnwys dogfennau, cynlluniau a mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y Prosiect ac maent yn cynnwys:

- Taflen yr Ymgynghoriad
- Llyfryn Gwybodaeth am y Prosiect
- Ffurflen Adborth yr Ymgynghoriad
- Dogfen Cwestiynau Cyffredin
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol
- Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol
- Mapiau a chynlluniau'r Prosiect
- Adroddiad Buddion Cydweithio Drafft
- Cynllun Amlinellol ar gyfer Rheoli Traffig Adeiladu Drafft
- Arweiniad i'r Dogfennau
- Paneli Arddangos ar gyfer Digwyddiadau
- Posteri
- Datganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC).

O 02 Hydref 2024 ymlaen, bydd holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi ar dudalennau gwe'r Prosiect: www.lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg (Cymraeg) a www.lightsourcebp.com/maenhir-english (Saesneg) a byddant yn cael eu cadw ar-lein tan o leiaf 15 Tachwedd 2024. Bydd holl ddogfennau'r ymgynghoriad a nodir uchod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac eithrio'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol, y mapiau a'r cynlluniau, y Cynllun Amlinellol ar gyfer Rheoli Traffig Adeiladu, sydd ar gael yn Saesneg.

## Lleoliadau adneuo dogfennau

Bydd copïau caled o'r holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael i'w harchwilio yn ystod y cyfnod ymgynghori tan o leiaf 15 Tachwedd 2024 yn rhad ac am ddim yn y lleoliadau adneuo dogfennau canlynol. Sylwch mai dim ond copi electronig o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol fydd ar gael yng Nghanolfan Fusnes Môn.

| Lleoliad archwilio'r dogfennau | Oriau agor* (yn gywir adeg cyhoeddi'r ddogfen hon) |
|---|---|
| **Canolfan Fusnes Môn**<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Parc Busnes Bryn Cefni<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7XA | 09.30 16.30 dydd Llun i ddydd Gwener: |
| **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys<br>Amlwch<br>Ynys Môn<br>LL68 9EA | Mawrth 09.30-12.30 a 4.00-17.00<br>Mercher 09.30-12.30<br>Iau 14.00-19.00<br>Gwener 09.30-12.30<br>Sadwrn 09.30-12.30 |
| **Llyfrgell Benllech**<br>Ffordd Bangor<br>Benllech<br>Tyn-y-Gongl<br>LL74 8TF | Llun 14.00-17.00<br>Mawrth 13.00-17.00<br>Mercher 10.00-13.00 a 14.00-17.00<br>Gwener 14.00-18.00<br>Sadwrn 10.00-13.00 |
| **Llyfrgell Caergybi**<br>Neuadd y Farchnad<br>Stryd Stanley<br>Caergybi<br>LL65 1HH | Llun 09.30-18.00<br>Mawrth 09.30-18.00<br>Mercher 09.30-13.00<br>Iau 09.30-18.00<br>Gwener 09.30-18.00<br>Sadwrn 09.30-12.30 |
| **Llyfrgell Llangefni**<br>Lôn y Felin<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL777RT | Llun 09.00-19.00<br>Mawrth 09.00-17.00<br>Mercher 09.00-13.00<br>Iau 09.00-18.00<br>Gwener 09.00-19.00<br>Sadwrn 09.30-12.30 |

*Y sefydliadau hyn eu hunain sy'n penderfynu ar yr amseroedd agor ac fe allant newid.

Gellir gofyn am gopïau caled o ddeunyddiau'r ymgynghoriad gan yr Ymgeisydd yn ystod y Cyfnod Ymgynghori gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost, y cyfeiriad post neu'r rhifau ffôn a ddarperir yn yr hysbysiad hwn. Bydd ceisiadau am ddeunyddiau'r ymgynghoriad i fodloni gofynion penodol (fel print bras neu sain ar gyfer y rheini sydd â nam ar eu golwg neu mewn iaith arall ar gyfer y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf) yn cael eu hystyried fesul achos. Bydd ceisiadau am gopïau niferus o'r dogfennau hyn, neu'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol a'i atodiadau, yn cael eu hystyried fesul achos ac efallai y codir tâl rhesymol am gostau argraffu a phostio. Mae copi caled o holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad yn costio hyd at £500. Gellir darparu copïau digidol o ddeunyddiau'r ymgynghoriad ar gof bach USB fel ffeiliau PDF am ffi fechan i dalu am gostau cynhyrchu a phostio, os gofynnwch.

## Digwyddiadau ymgynghori

Mae'r Ymgeisydd yn cynnal wyth digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb a dwy weminar ar-lein ar y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliadau canlynol:

| Dyddiad ac amser | Lleoliad |
|---|---|
| Mercher 09 Hydref 2024<br>13.30-19.30 | Neuadd y Dref Llangefni,<br>Sgwâr Bulkeley, Llangefni,<br>LL77 7LR |
| Gwen 11 Hydref 2024<br>13.30-19.30 | Neuadd Bentref Talwrn,<br>Talwrn, LL77 7SU |
| Iau 17 Hydref 2024<br>13.30-19.30 | Neuadd Bentref Llanddeusant,<br>Llanddeusant, Caergybi, LL65 4AA |
| Gwen 18 Hydref 2024<br>13.30-19.30 | Neuadd Goffa Amlwch<br>18 Stryd y<br>Farchnad, Amlwch, LL68 9ET |
| Sad 19 Hydref 2024<br>10.00-14.00 | Neuadd Bentref David Hughes,<br>Stryd Fawr, Cemaes, LL67 0HL |
| Maw 22 Hydref 2024<br>18.00-19.00 | Manylion mynediad y weminar<br>Cymraeg ar-lein yn<br>lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg |
| Sad 26 Hydref 2024<br>10.00-14.00 | Y Ganolfan, Ysgol<br>Gymuned Llannerchymedd,<br>Llannerchymedd, LL71 8DP |
| Llun 28 Hydref 2024<br>13.30-19.30 | Canolfan Gymunedol Ysgol<br>Llanfechell, Lôn y Mynydd,<br>Llanfechell, LL68 0SA |
| Maw 29 Hydref 2024<br>13.30-19.30 | Canolfan Gymunedol Ysgol<br>Rhosybol, Rhosybol, Amlwch,<br>LL68 9PP |
| Mer 30 Hydref 2024<br>18.00-19.00 | Manylion mynediad y weminar<br>(Saesneg) ar-lein yn<br>lightsourcebp.com/maenhir-english |

Bydd copïau papur o holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad (gan gynnwys y Datganiad Ymgynghori Cymunedol) ar gael i'w harchwilio yn y digwyddiadau wyneb yn wyneb a restrir uchod, a bydd aelodau o dîm y prosiect ar gael i drafod y Prosiect ac i ateb unrhyw gwestiynau.

Pan fydd unrhyw ddigwyddiad ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ganslo neu ei aildrefnu am unrhyw reswm, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl. Rhoddir rhybudd o unrhyw drefniadau eraill (os yw'r Ymgeisydd yn ystyried yn rhesymol bod hynny'n angenrheidiol) cyn gynted â phosibl ar ôl canslo neu ad-drefnu. Gall hyn gynnwys dyddiadau, lleoliadau a/neu drefniadau gwahanol ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd yr Ymgeisydd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw beth sy'n cael ei ganslo neu'i ad-drefnu drwy ddulliau fel gwefan y Prosiect a drwy hysbysebu'n lleol

## Adborth

Gall unrhyw un roi sylwadau ar y Prosiect neu ymateb i'r ymgynghoriad fel arall. Rhaid i bob ymateb ddod i law erbyn 23:59 ar 15 Tachwedd 2024. Mae'n bosib na fydd ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried.

Wrth roi eich ymateb, cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad neu, os byddai'n well gennych i'ch sylwadau fod yn ddienw, eich cod post yn unig. Cadarnhewch hefyd natur eich diddordeb yn y Prosiect.

Rhaid i bob ymateb gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig drwy:
a.Lenwi'r ffurflen adborth ar-lein sydd ar gael ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg o dudalennau gwe'r Prosiect:
i.www.lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg (Cymraeg)
ii.www.lightsourcebp.com/maenhir-english (Saesneg)
b.Mynd i ddigwyddiad ymgynghori a llenwi ffurflen bapur i roi adborth ar yr ymgynghoriad
c.Cael copi papur o'r ffurflen adborth i'r ymgynghoriad, ei llenwi a'i dychwelyd drwy FREEPOST MAEN HIR PROJECT
d.Fel arall, gellir anfon adborth atom drwy:
i.Anfon e-bost i: maenhir@lightsourcebp.com
ii.Ysgrifennu atom: FREEPOST MAEN HIR PROJECT

Bydd yr Ymgeisydd yn pwyso a mesur ac yn ystyried yr holl ymatebion wrth ddatblygu'r Cais ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Defnyddir yr ymatebion i lunio Adroddiad ar yr Ymgynghoriad; bydd hwn yn un o'r ffactorau y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried wrth benderfynu a ellir derbyn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i'w archwilio. Felly, wrth ddarparu unrhyw sylwadau, cofiwch y gellir mynegi sylwedd eich sylwadau wrth eraill fel rhan o'r Adroddiad hwnnw ar yr Ymgynghoriad.

Bydd manylion personol yn cael eu cadw'n ddiogel ac ni chânt ond eu defnyddio at ddibenion sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad statudol, proses y gorchymyn cydsyniad datblygu a datblygiadau pellach ynglŷn â'r Prosiect. Y tu hwnt i'r dibenion hyn, efallai y bydd yn rhaid i'r Ymgeisydd ddarparu manylion personol os gofynnir yn benodol amdanynt fel rhan o gais dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu os bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn am gopïau o'r ymatebion gwreiddiol.

I gael rhagor o fanylion, darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd yr Ymgeisydd yn: https://lightsourcebp.com/uk/project/maen-hir-solar-energy-storage-welsh/. Gellir gofyn am gopi caled o'r hysbysiad preifatrwydd gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost, y cyfeiriad post neu'r rhif ffôn isod:

- **E-bost:** maenhir@lightsourcebp.com
- **Post:** FREEPOST MAEN HIR PROJECT
- **Rhadffôn:** 0808 175 6663 (Cymraeg); 0808 175 6375 (Saesneg) Mae'r Llinellau ar agor 09.00-17.00 dydd Llun i ddydd Gwener